



Tachwedd 9^{fed}, 2022

Annwyl Rieni / Warcheidwaid,

Mae'n bleser gen i gyhoeddi fod Ysgol Aberconwy'n treialu'r *Siarter Iaith Uwchradd* ar ran ysgolion uwchradd Sir Conwy. Efallai eich bod chi wedi clywed am y *Siarter Iaith* neu'r cynllun *Cymraeg Campus* pan roedd eich plentyn yn yr ysgol gynradd. Mae'r *Siarter Iaith Uwchradd* yn ddilyniant cyffrous i'r cynlluniau hynny. **Mae gan Lywodraeth Cymru darged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050.** Mae hyn yn bosib gyda chefnogaeth y *Siarter*, yr ysgolion a'r rhieni!

Cynllun sy'n darparu fframwaith glir er mwyn hyrwyddo a chynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc ydy'r *Siarter Iaith Uwchradd*. Prif nod y Siarter yw i hyrwyddo ethos Gymraeg a Chymreig cryf ac i ddarparu arweiniad clir ynglŷn â'r Gymraeg o fewn ysgolion uwchradd yn y gobaith y bydd yn ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ymhob agwedd o'u bywyd.

Yn rhan o'r siarter, ceir tair gwobr, yr Efydd, Arian a'r Aur i'w hennill. Nôl ym mis Medi, cychwynnodd ein taith ni i'r wobwr Efydd gyda chyflwyniad gan y Cyngor Iaith ar ddiwrnod hyfforddiant mewn staff yn egluro i staff yr ysgol beth sy'n ddisgwyliadwy ganddynt. Ddiwedd tymor yr haf, mwynheuodd y llywodraethwyr gyflwyniad ganddynt yn ogystal. Diolch o galon i'r criw am ddod i mewn ar eu diwrnod i ffwrdd ac am ddarparu cyflwyniad cynhwysfawr i'r cynllun! Gwerthfawrogwn eu gwaith yn fawr.

Er mwyn cefnogi tair gwobr y *Siarter Iaith Uwchradd*, rydyn ni wedi creu system o dargedau unigryw ar gyfer anghenion Ysgol Aberconwy. Mae'n herio a gwobrwyo athrawon ac adrannau am ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwersi ac am annog eu disgyblion i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg y tu hwnt i'w gwersi Cymraeg. Mae ein cynllun hefyd yn cwrdd â gofynion polisïau sir Conwy: *Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg, Strategaeth ar Gyfer Hybu'r Gymraeg a Pholisi Dwyieithrwydd*. Felly, mae tair haen i'w hennill ac mae tirnodau lleol wedi cael eu defnyddio fel symbol o gyrraedd eu nod:

- **'Croesi'r Bont i Wobr Efydd'**
- **'Esgyn y Grisïau i Wobr Arian'**
- **'Dringo'r Mynydd i Wobr Aur'** –

yn cyfeirio at y Bont Grog, Waliau'r Castell a Mynydd y Dref, Conwy.

Hoffwn i achub ar y cyfle hwn i longyfarch sawl adran sydd wedi llwyddo i gyrraedd hanner ffordd gyda'r **'Croesi'r Bont i Wobr Efydd'**. Yn wir, mae'r adran Gelf, Dylunio a Thechnoleg, Y Copa (y llyfrgell), Astudiaethau Crefyddol, Uned ABCD, Yr Hwb (sef canolfan y 6ed dosbarth) ac wrth gwrs yr Adran Gymraeg i gyd wedi cyrraedd hanner ffordd dros y bont! Mae sawl adran arall bron â chyrraedd yr hanner hefyd! Hoffen ni longyfarch yr adrannau hyn a mynegi ein diolchgarwch i'r Cyd-

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED

+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537

INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK

BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

lynydd Dwyieithrwydd ac i ddisgyblion gweithgar y Cyngor Iaith am eu gwaith caled yn monitro, annog ac yn cefnogi'r gwahanol adrannu.

Hoffwn i hefyd gymryd y cyfle i longyfarch yr holl aelodau o staff sydd wedi bod yn ymdrechu i ddysgu'r Gymraeg ynghyd â'r staff sydd wedi bod yn awyddus i wella eu sgiliau iaith Gymraeg drwy amrywiol gyrsiau. Dewis rhai yw defnyddio'r cwrs *Say Something in Welsh* ac eraill yn dewis cwrs [Croeso | Dysgu Cymraeg](#) ac mae ambell aelod o staff wedi manteisio ar y cwrs sabothol gan [Uned Gloywi Iaith Canolfan Bedwyr \(bangor.ac.uk\)](#), Yn wir, mae cwrs addas ar gyfer pob math o ddysgwr!

Hoffen ni pe baech chi'n cymryd golwg ar ein tudalen gwe newydd ar ein gwefan sy'n egluro ein dulliau ni wrth ymdrin â'r iaith Gymraeg, mae'n cynnwys gwybodaeth am ddwyieithrwydd a'r *Siarter Iaith Uwchradd*. Gallwch chi hefyd ddilyn a dathlu llwyddiannau'r disgyblion a'r staff ar ein taith ni i wobwr Efydd y *Siarter Iaith Uwchradd* ar y dudalen hon. Cewch ei gweld wrth glicio ar y ddolen hon: https://www.aberconwy.conwy.sch.uk/en_gb/welsh-language-charter/ Rydyn ni'n wir obeithio y bydd o gymorth i chi wrth i chi ystyried manteision dwyieithrwydd a manteision siarad Cymraeg a Saesneg i'ch plentyn chi.

Credwn fod yr iaith Gymraeg yn perthyn i bawb, yn siaradwyr rhugl, dysgwyr neu'r rhai sy'n swil am eu Cymraeg. Ni sydd piau hi! Ein lle ni ydy edrych ar ei hôl hi a'i meithrin hi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Felly, dewch hefo ni ar ein taith. **Mae'r iaith Gymraeg yn fyw yn Ysgol Aberconwy!**

Yr eiddoch yn gywir,

L. Davies Parry

Mrs Luned Davies Parry

Dirprwy Bennaeth yr Adran Gymraeg a Chyd-lynydd y Siarter Iaith

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED

+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537

INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE